

Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, on **Monday 3 June 2019** at 6.45 p.m.

**PRESENT:** - His Worship the Mayor Councillor J Wyn Williams  
Councillors Luke Tugwell (Vice-Chairman)  
D Hainge J Wynn Jones Gareth Roberts  
Medwyn Hughes J M Martin Mair Rowlands  
Ifan James Keith Jones Enid Parry

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

### **32/19 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from the Deputy Mayor, Councillor Owen Hurcum, Councillors Les Day, D Fernley, H W Jones, C King, S Rahman, G O Roberts and E Walker Jones.

### **33/19 FRAN WEN PRESENTATION**

The Vice-Chairman introduced Nia Jones and Carl Owen from Fran Wen, which was a well established North Wales Theatre Company for young people. The vision for a new home has long been developed with young people and for young people who need and deserve a safe, nurturing and inspiring environment to flourish and reach their potential in life.

Ensuring a convenient, easily accessible purpose-built home for all the company's activity has been a priority in planning for the future. St.Marys Church on Garth Road had been identified as a potential site, and progress was being made for its acquisition and a public consultation was part of the stage of the development. Finance was in place and it was anticipated that the building would be in use by September 2021.

The centre would be suitable for rehearsals, workshops and small-scale performances, and also embraces young people and provides them with creative stimulus.

A question and answer session then ensued with much support expressed for the project by Members. The Vice-Chairman thanked Nia and Carl for their interesting presentation.

### **34/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None

### **35/19 URGENT BUSINESS**

None.

### **36/19 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

C19/0463/11/LL Installation of rear dormer window. Grey House, Gorad Road. **No Objection**

C19/0464/11/CA Reduction of tree within conservation area. Allt Menai, Rhodfa Menai. **Objection – not sufficient reason, evidence or explanation. Such a reduction could cause permanent damage or death of the tree**

C19/0471/11/LL Two-storey and single-storey Extension at the rear. 47 Ffordd Belmont. **No Objection**

C19/0488/11/CR Siting of 2 CCTV cameras to front of building. 247 High Street. **No Objection**

C19/0489/11/LL Siting of 2 CCTV cameras to front of building. Natwest, 247 High Street. **No Objection**

**PAGE 9**

C19/0493/11/CT Fell 4 trees within the conservation area and replant with native trees. Ty Mawr, Rhodfa Menai. **Objection – not sufficient reason, evidence or explanation for felling of protected trees**

C19/0442/11/CT Felling of two trees within conservation area. Cae Ffynnon, Parc Victoria. **Objection – not sufficient reason, evidence or explanation for felling of protected trees**

**37/19 LICENSING MATTERS**

Various Licencing matters - Wood Fired Shack, Stryd Fawr, Bangor:- Noted and no objections.

**38/ 19 HIGHWAY MATTERS**

The following matters were reported:-

- (i) Gwynedd Council (FootpathNo.25 in the City of Bangor) Public Path Diversion Order 2019
- (ii) Prohibition and Restriction of Waiting and Street Parking Places (Bangor and District Area) 2019
- (iii)The Gwynedd Council (Closure of Ffordd Gwynedd, Bangor) (Temporary Prohibition of Through Traffic) Order 2019

**All Noted and no objections.**

- (iv) The Gwynedd Council (Closure of Mount Street, Bangor) (Temporary Prohibition of Through Traffic) Order 2019
- C19/0421/11/CC Tocio a thorri coed sy'n destyn gorchymun gwarchod / Prune and fell trees subject to a preservation order. Land at, Deiniol Road. **Objection – not sufficient reason for felling of protected trees and a reduction in quality of life. Visually amenity would be detrimentally affected by loss of the greenery and removal of trees.**

Traffic) Order 2019

---

The Meeting closed at 7.40 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **Nos Lun, Mehefin 3, 2019** am 6.45 y.h.

**PRESENNOL** :- Ei Deilyngdod y Maer y Cyngorydd John Wyn Williams

Cynghorwyr Luke Tugwell (Is-Gadeirydd)

D Hainge

J Wynn Jones

Gareth Roberts

Medwyn Hughes

J M Martin

Mair Rowlands

Ifan James

Keith Jones

Enid Parry

Swyddog :- Mr Ian Jones, Clerc y Dref

### 32/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth, Y Dirprwy Faer, y Cyngorydd Owen Hurcum a'r Cynghorwyr Les Day, D Fernley, H W Jones, C King, S Rahman, G O Roberts ac E Walker Jones.

### 33/19 CYFLWYNIAD FRÂN WEN

Cyflwynodd yr Is-Gadeirydd Nia Jones a Carl Owen o Gwmni'r Frân Wen, Cwmni Theatr adnabyddus i bobl ifanc yng Ngogledd Cymru. Maent wedi bod yn datblygu gweledigaeth am gartref newydd ers tro gyda phobl ifanc ac i bobl ifanc sydd angen ac sy'n haeddu amgylchedd diogel, a fydd yn eu meithrin a'u hysgogi i flodeuo a chyrraedd eu potensial mewn bywyd.

Bu sicrhau cartref pwrpasol sy'n gyfleus ac yn hawdd cyrraedd ato ar gyfer gweithgaredd y cwmni yn flaenoriaeth wrth gynllunio at y dyfodol. Adnabuwyd Eglwys y Santes Fair ar Ffordd Garth fel safle posibl. Roedd datblygiadau ar waith i'w brynu ac roedd ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan o'r cam hwn o'r datblygiad. Roedd cyllid yn ei le ac roeddent yn rhagweld y byddai'r adeilad yn barod i'w ddefnyddio erbyn Medi 2021.

Byddai'r ganolfan yn addas ar gyfer ymarferion, gweithdai a pherfformiadau ar raddfa fechan. Byddai hefyd yn croesawu pobl ifanc ac yn darparu sbardun creadigol iddyn nhw.

Cafwyd sesiwn holi ac ateb wedyn a mynegwyd cryn gefnogaeth i'r prosiect gan yr Aelodau. Diolchodd yr Is-Gadeirydd i Nia a Carl am eu cyflwyniad diddorol.

### 34/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

### 35/19 MATERION BRYS

Dim.

### 36/19 CEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD** : Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

C19/0463/11/LL Gosod ffenestr gromen yn y cefn. Grey House, Ffordd Gorad. **Dim Gwrthwynebiad**

C19/0464/11/CA Tocio coeden o fewn ardal cadwraeth. Allt Menai, Rhodfa Menai. **Gwrthwynebiad - dim digon o reswm, tystiolaeth neu eglurhad. Gallai tocio fel hyn achosi niwed parhaol neu farwolaeth y goeden.**

C19/0471/11/LL Estyniad deulawr ac un llawr yn y cefn. 47 Ffordd Belmont. **Dim Gwrthwynebiad**

C19/0488/11/CR Gosod 2 gamera CCTV ar flaen yr adeilad. 247 High Street. **Dim Gwrthwynebiad**

C19/0489/11/LL Gosod 2 gamera CCTV ar flaen yr adeilad. Natwest, 247 High Street. **Dim Gwrthwynebiad**

C19/0493/11/CT Torri 4 coeden o fewn ardal gadwraeth ac ail blannu gyda choed brodorol. Ty Mawr, Rhodfa Menai. **Gwrthwynebiad – dim digon o reswm, tystiolaeth neu eglurhad am dorri'r coed dan warchodaeth.**

C19/0442/11/CT Torri dwy goeden o fewn ardal gadwraeth. Cae Ffynnon, Parc Victoria. **Gwrthwynebiad – dim digon o reswm, tystiolaeth neu eglurhad am dorri'r coed dan warchodaeth.**

### **37/19 CEISIADAU TRWYDDEDU**

Amrywiol faterion Trwyddedu - Wood Fired Shack, Stryd Fawr, Bangor:- Nodwyd a dim gwrthwynebiad.

### **38/19 MATERION PRIFYRDD**

Adroddwyd ar y materion canlynol:-

- (i) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llwybr Troed Rhif 25 yn Ninas Bangor) Gwyro Llwybr Troed 2019
- (ii) Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros a Llefydd Parcio ar y Stryd (Ardal Bangor a'r Cylch) 2019
- (iii) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau Ffordd Gwynedd, Bangor) Atal Traffig Trwodd Dros Dro, 2019
- (iv) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau Mount Street, Bangor) (Atal Traffig Trwodd Dros Dro) Order 2019  
**Nodwyd y cyfan ac nid oedd gwrthwynebiad.**

C19/0421/11/CC Tocio a thorri coed sy'n destun gorchymyn diogelu. Tir yn, Ffordd Deiniol. **Gwrthwynebiad - dim digon o reswm dros dorri coed sy'n cael eu diogelu a lleihad yn ansawdd bywyd. Byddai'r amwynder gweledol yn cael ei niweidio drwy golli'r gwyrddlesni a thorri'r coed.**

---

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.40 y.h.